Commission for Countering Extremism

# Astudiaeth o Eithafiaeth

## Cylch Gorchwyl

Medi 2018

# CYNNWYS


**05** RHAGAIR GAN Y COMISIYNYDD ARWEINIOL

**06** YNGLŶN Â'R COMISIWN DROS FRWYDRO YN ERBYN EITHAFIAETH

**07** BETH FYDD YN YR ASTUDIAETH?

**09** BETH YDYM NI AM GAEL EI WYBOD?

**14** METHODOLEG

**Dealltwriaeth y cyhoedd** | **Graddfa** | **Tactegau ac amcanion eithafwyr** | **Niweidiau** | **Ein hymateb presennol**

## PA GWESTIYNAU FYDDWN NI YN EU GOFYN?

### Dealltwriaeth y cyhoedd

**I ba raddau y mae dealltwriaeth a rennir gan y cyhoedd o beth yw eithafiaeth?**

**Pa gytundeb sydd yna ar derfynau eithafiaeth?**

### Graddfa

**Beth mae'r dangosyddion canlynol yn ei ddweud wrthym am raddfa eithafiaeth?**

- Troseddau cysylltiedig ag eithafiaeth e.e. troseddau casineb
- Digwyddiadau eithafol
- Gwahanu mewn ardaloedd lleol
- Digwyddiadau mewn mannau a reoleiddir, e.e. ysgolion, prifysgolion, elusennau
- Maint a dylanwad grwpiau eithafol
- Propaganda eithafol e.e. ar gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau traddodiadol
- Cysylltiad rhwng eithafiaeth a therfysgaeth
- Agweddau sy'n arwydd o gydymdeimlad â syniadau neu ymddygiad eithafol

### Tactegau ac amcanion eithafwyr

**Beth yw amcanion gwahanol ideolegau eithafol?**

**Pa dactegau mae eithafwyr yn eu defnyddio i gyflawni eu hamcanion, gan gynnwys:**

- i gael eu barn yn y brif-ffrwd?
- i recriwtio pobl?
- i ymateb i'r rhai sy'n eu gwrthwynebu?

### Niweidiau

**Beth yw'r niweidiau sy'n cael eu hachosi gan ddigwyddiadau eithafol?**

**Beth yw niweidiau eithafiaeth i fenywod, pobl ifanc, lleiafrifoedd a phobl sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth?**

**Beth yw'r niweidiau ehangach ar ein democratiaeth?**

### Ein hymateb presennol

**Beth yw ymateb y llywodraeth a'r gymdeithas i eithafiaeth ar hyn o bryd, pa mor effeithiol yw'r ymateb a beth yw'r bylchau?**

**Sut gallwn ni gefnogi'r rhai sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth yn well?**

**Sut y gallai gweledigaeth gadarnhaol, gynhwysol i'n gwlad edrych?**

## BLE FYDDWN NI'N DOD O HYD I ATEBION?

| Dealltwriaeth y cyhoedd | Graddfa | Tactegau ac amcanion eithafwyr | Niweidiau | Ein hymateb presennol |
|---|---|---|---|---|
| Arolwg agweddau | Arolwg agweddau | Galwad am dystiolaeth | Galwad am dystiolaeth | Arolwg agweddau |
| Digwyddiadau cymunedol | Galwad am dystiolaeth | Papurau ymchwil | Trafod gyda dioddefwyr eithafiaeth a'r rhai sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth | Ymgysylltu â'r llywodraeth |
| Galwad am dystiolaeth | Ymgysylltu â'r llywodraeth | Adolygiad o lenyddiaeth | Adolygiad o lenyddiaeth | Siarad â'r rhai sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth |
| Adolygiad o lenyddiaeth | Adolygiad o lenyddiaeth | | | Digwyddiadau cymunedol |
| | | | | Adolygiad o lenyddiaeth |

# RHAGAIR GAN Y COMISIYNYDD ARWEINIOL



Mae amrywiaeth cyfoethog, hawliau sylfaenol a democratiaeth ryddfrydol ein gwlad yn ein diffinio fel cenedl ac maent yn achos dathlu. Rydym yn croesawu gwahanol hiliau, crefyddau, rhyweddau a chredoau.

Ond mae darlun pryderus yn ymffurfio, a ddylai beri pryder i bawb sy'n gwerthfawrogi'r gwerthoedd yma. Cred llawer o'r rhai yr wyf wedi siarad â nhw bod eithafiaeth yn cynyddu ac maent yn bryderus am syniadau ac ymddygiad sy'n tanseilio ein gwerthoedd. Gall llawer o bobl ddisgrifio'r eithafiaeth y maent yn ei weld ar y strydoedd ac yn eu bywydau, ac maent am iddo stopio. Maent yn teimlo bod angen gwneud mwy.

Mae'n amlwg i mi mai'r cam cyntaf yw ymdrin â'r diffyg consensws, cynyddu'r dystiolaeth am eithafiaeth ac archwilio ein hymateb iddo ar hyn o bryd.

Er mwyn ymdrin â hyn bydd fy Nghomisiwn yn cyhoeddi astudiaeth eang ar bob ffurf o eithafiaeth yng ngwanwyn 2019. Mae'r Cylch Gorchwyl yma yn amlinellu ein dull, ein cwestiynau a sut y byddwn yn eu hateb. Y themâu allweddol y byddaf yn edrych arnynt yw:

- Dealltwriaeth y cyhoedd o eithafiaeth
- Graddfa eithafiaeth
- Tactegau ac amcanion eithafwyr
- Niweidiau a achosir gan eithafiaeth
- Yr ymateb presennol i eithafiaeth

Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn nodi sut y byddaf yn taclo'r angen am ddealltwriaeth holistaidd o eithafiaeth a'i ganlyniadau, boed i unigolion, i'n cymdeithas neu i'n democratiaeth yn ehangach.

Yn fuan byddwn yn cyhoeddi ymgynghoriad cyhoeddus gan ein bod yn awyddus i roi cyfle i'r cyhoedd rannu eu profiadau eu hunain â ni.

Rydym hefyd yn awyddus i'r llywodraeth, academyddion, grwpiau sifil, gweithredwyr yn erbyn eithafiaeth a chyrff cyhoeddus gael cyfle i roi eu dadansoddiad a'u dealltwriaeth hwy yn ogystal ag enghreifftiau o arfer da wrth gyflawni atebion effeithiol.

Yn naturiol bydd amser ac adnoddau yn cyfyngu ar ei gwmpas. Ac eto, gwn mai cynnig mwy o eglurder yw'r cam cyntaf ar daith i gynyddu'r ddealltwriaeth o eithafiaeth yn ein gwlad, gyda'r nod o annog pawb – teuluoedd, cymdeithas sifil, ysgolion, llywodraeth, asiantaethau statudol, cwmnïau preifat a'r cyhoedd i gyd – i wneud mwy i herio eithafiaeth.

Bydd fy null o gynnal yr Astudiaeth hon yr un dull ag yr wyf wedi ei ddefnyddio ar hyd fy ngyrfa: amddiffyniad cadarn o luosedd a hawliau dynol, cydraddoldeb i bob rhyw, a'n hawliau sylfaenol gan gynnwys rhyddid i fynegi barn a rhyddid crefyddol ag o ran cred.

Credaf, er ei fod yn anodd, bod brwydro yn erbyn eithafiaeth hefyd yn cynnig cyfle. Y cyfle i hyrwyddo sut y mae gweledigaeth gadarnhaol a chynhwysol ar gyfer ein cymdeithas yn edrych mewn cymhariaeth â chymdeithas lawn casineb ag ofn, wahaniaethol a homogenaidd y mae eithafwyr am ei chreu. Mae'n gyfle y mae'n rhaid i ni ei gymryd.



Sara Khan, Comisiynydd Arweiniol dros Frwydro yn Erbyn Eithafiaeth

# YNGLŶN Â'R COMISIWN DROS FRWYDRO YN ERBYN EITHAFIAETH

Sefydlwyd y Comisiwn annibynnol ym Mawrth 2018 i helpu pawb i wneud mwy i herio pob ffurf ar eithafiaeth.

Mae ein blwyddyn gyntaf yn cael ei threulio yn ymgysylltu yn eang, yn cynnal Astudiaeth o eithafiaeth yng Nghymru a Lloegr, ac yn sefydlu Comisiwn cadarn ac awdurdodol. Sefydlwyd y Comisiwn i edrych ar bob ffurf o eithafiaeth, ac rydym yn cymryd yr ymrwymiad hwn yn ddifrifol.

Mae'r dystiolaeth yr ydym yn ei chyhoeddi ochr yn ochr â'r Cylch Gorchwyl hwn yn cynnwys crynodebau o'r ymgysylltu eang yr ydym wedi ei gynnal, rhywfaint o'r dystiolaeth academaidd yr ydym eisoes wedi ei ddynodi, a'r pôl piniwn cyhoeddus cychwynnol.[1]

## Cwmpas y Comisiwn

Rhennir polisi'r Llywodraeth yn dri maes penodol: brwydro yn erbyn terfysgaeth,[2] brwydro yn erbyn eithafiaeth,[3] a hyrwyddo integreiddio.[4] Gosodwyd cylch gorchwyl y Comisiwn gan y Llywodraeth ac fe'i amlinellir yn ein Siarter fel brwydro yn erbyn eithafiaeth. Ond dywedodd nifer o arbenigwyr ac ymarferwyr wrthym nad ydynt yn glir am fanteision y gwahanu hwn, fwy na dwy flynedd ar ôl cyhoeddi'r Strategaeth Gwrth-eithafiaeth.


Cred y Comisiwn bod angen cael dealltwriaeth holistaidd o eithafiaeth, ac rydym yn cydnabod bod rhai meysydd amwys sy'n gorgyffwrdd rhwng integreiddio ac eithafiaeth; ac eithafiaeth a therfysgaeth. Byddwn yn edrych ar y meysydd ansicr yma. Byddwn hefyd yn dynodi gwersi adeiladol o'r llenyddiaeth a'r dystiolaeth am raglenni presennol i frwydro yn erbyn terfysgaeth, fel Prevent,[5] ac i hyrwyddo integreiddio. Fel yr amlinellwyd yn ein Siarter, ni fyddwn yn adolygu Strategaeth Prevent y Llywodraeth na'r Strategaeth Integreiddio arfaethedig.

Mae cylch gorchwyl daearyddol y Comisiwn yn cynnwys eithafiaeth yng Nghymru a Lloegr, yn unol â'r Strategaeth Gwrth-derfysgaeth. Amlygodd ein hymgysylltu eang hyd yn hyn, er bod ein ffocws ar eithafiaeth yn cael ei gyfyngu i Gymru a Lloegr, ein bod yn cydnabod dylanwadau eithafol rhyngwladol, ar-lein a heb fod ar-lein, a all gael effaith uniongyrchol ac anuniongyrchol ar eithafiaeth yn ein gwlad ninnau hefyd. Byddwn yn ystyried tystiolaeth ac arfer gorau rhyngwladol pan fydd hynny'n berthnasol.

1. Mae'r holl ffigyrau, oni nodir yn wahanol, gan YouGov Plc. Cyfanswm maint y sampl oedd 1,495 o oedolion. Gwnaed y gwaith maes rhwng 20 a 21 Mehefin 2018. Cynhaliwyd yr arolwg ar-lein. Mae'r ffigyrau wedi eu pwysoli ac maent yn cynrychioli holl oedolion Prydain (18 oed a hŷn). Canfyddiadau allweddol yn Atodiad B.
2. Strategaeth CONTEST (2018) a Strategaeth Prevent: (2011)
3. Strategaeth Gwrth-eithafiaeth (2015)
4. Ymgynghoriad Strategaeth Cymunedau Integredig (2018)
5. Mae'r enghreifftiau yn cynnwys: Innes, M., Roberts, C. a Lowe, T. (2017). A disruptive influence? "Prevent-ing" problems and countering violent extremism Policy in Practice. Law & Society Review, 51(2): 252-281; Alam, Y. a Husband, C. (2013). Islamophobia, community cohesion and counter-terrorism policies in Britain. Patterns of Prejudice, 47(3): 235-252; Spalek, B. a Weeks, D. (2017). The role of communities in counterterrorism: Analyzing policy and exploring psychotherapeutic approaches within community settings. Studies in Conflict & Terrorism, 40(12): 991-1003.

# BETH FYDD YN YR ASTUDIAETH?

Cyhoeddir yr Astudiaeth yng Ngwanwyn 2019. Bydd yn helpu pawb i wneud mwy i herio eithafiaeth trwy gynyddu dealltwriaeth y cyhoedd o'i niweidiau a'i effaith. Bydd hefyd yn sail i'n hargymhellion i'r Ysgrifennydd Cartref am rôl a rhaglen waith y Comisiwn yn y dyfodol.




Mae ein gwaith hyd yn hyn wedi ein harwain i ddynodi pum thema ar gyfer yr Astudiaeth. Wrth ddynodi'r pum thema, a'r cwestiynau a'r dulliau a nodir yn y Cylch Gorchwyl hwn, rydym wedi tynnu ar amrywiaeth o dystiolaeth a safbwyntiau trwy ein hymgysylltu a'r cyfnod o osod cwmpas yr Astudiaeth. Mae hyn yn cynnwys:

- ymgysylltiad y Comisiwn â dros 300 o arbenigwyr a gweithredwyr ac ymweliadau â 12 ardal leol
- gweithdai a thrafodaethau gydag ymarferwyr, seiadau syniadau, academyddion, grwpiau hawliau dynol, seciwlar a chrefyddol a swyddogion o lywodraethau'r Deyrnas Unedig a Chymru[6]
- pôl piniwn byr gan YouGov o 1,495 o bobl ar draws y wlad[7]
- adolygiad cychwynnol o'r llenyddiaeth sydd ar gael, gan gynnwys llenyddiaeth academaidd, adroddiadau seiadau syniadau a data llywodraeth, sydd yn parhau[8]

Rydym hefyd wedi ymgynghori â Grŵp Arbenigol y Comisiwn ar y Cylch Gorchwyl. Nid ydym wedi tynnu yn benodol ar unrhyw wybodaeth gyfrinachol ar hyn o bryd.

Rydym wedi gosod cwestiynau i ni'n hunain ar draws yr ystod lawn o faterion sy'n ymwneud ag eithafiaeth, fel ein bod yn gallu rhoi atebion dibynadwy a defnyddiol erbyn gwanwyn 2019.

Mae llawer o'r cwestiynau yr ydym yn eu hwynebu yn gymhleth, heb atebion rhwydd na syml. Byddwn yn gofalu bod yr ymchwil a'r ymgysylltu angenrheidiol yn eu lle ar gyfer y dull hwn yn y tymor hwy.

Bydd yr Astudiaeth ei hun yn cael ei strwythuro o gwmpas y pum thema ac yn ystyried ymhellach ddau fater trawsbynciol, ac yn tynnu ar y dystiolaeth yr ydym yn ei chasglu fel y'i disgrifir yn y fethodoleg yn ogystal â'r dystiolaeth sy'n bodoli a ddynodwyd gan y Comisiwn. Bydd yn cael ei chyhoeddi ar wefan y Comisiwn.

6. Atodiad A Crynodeb Ymgysylltu
7. Atodiad C, Data Polau Piniwn
8. Atodiad D, Adolygiad O Lenyddiaeth

## Diffiniadau o Eithafiaeth

Strategaeth Gwrth-eithafiaeth y Llywodraeth, 2015:

'Eithafiaeth yw gwrthwynebiad llafar neu weithredol i'r gwerthoedd a rennir gennym. Mae'r rhain yn cynnwys democratiaeth, rheolaeth y gyfraith, parch a goddefgarwch tuag at gredoau a ffydd gwahanol. Rydym hefyd yn ystyried bod galw am farwolaeth ein lluoedd arfog naill ai yn y Deyrnas Unedig neu dramor yn eithafiaeth.'

Diffiniodd Comisiwn Manceinion, a sefydlwyd ar ôl ymosodiad Arena Manceinion yn 2017 '*eithafiaeth llawn casineb*' fel:

'Syniadau ac ymddygiad sy'n llawn casineb tuag at 'eraill' diffiniedig i danseilio cydlyniad cymdeithasol.'[9]

Mae'r Heddlu, ar y llaw arall, wedi diffinio 'eithafiaeth domestig' fel rhywbeth sy'n ymwneud â:

'gweithgaredd grwpiau neu unigolion sy'n cyflawni neu yn cynllunio gweithgaredd troseddol difrifol wedi ei ysgogi gan safbwynt gwleidyddol neu ideolegol.'[10]

Mae diffiniad JM Berger yn ei lyfr 'Extremism' yn nodi:

'Mae eithafiaeth yn cyfeirio at y gred na all llwyddiant na goroesiad y grŵp mewnol gael ei wahanu oddi wrth yr angen am weithredu gelyniaethus yn erbyn y grŵp allanol.'[11]

Nododd dyfarniad yr Ustus Haddon-Cave yn achos Shakeel Begg a'r BBC ddeg 'safbwynt Islamaidd eithafol' gwahanol i safbwyntiau 'prif-ffrwd' yn y Brydain gyfoes.[12]

Yn ddiweddar disgrifiodd y Cyn Gomisiynydd Cynorthwyol i'r Heddlu Metropolitan, Syr Mark Rowley "bedair elfen" o strategaeth gyffredin a ddefnyddir gan eithafwyr Islamaidd a'r dde eithaf:

1. 'Mae eithafwyr yn cyrraedd i mewn i gymunedau trwy bropaganda soffistigedig
2. Mae eithafwyr yn creu anoddefgarwch a theimlad ynysig trwy fanteisio ar gwynion
3. Mae eithafwyr yn atgyfnerthu'r ymdeimlad hwn o fod yn ynysig trwy greu diffyg ymddiriedaeth yn sefydliadau'r wladwriaeth
4. Mae eithafwyr yn creu dewisiadau cyfochrog gwahanol sy'n tanseilio ein gwerthoedd goddefgarwch ac amrywiaeth'[13]

Dywed diffiniad Alex Schmid yn 2013 bod grwpiau eithafol yn dueddol o fod â rhaglen sy'n cynnwys nifer o'r elfennau canlynol:

- 'Gwrth-gyfansoddiadol, gwrth-ddemocrataidd, gwrth-luosogedd, awdurdodaidd
- Ffanatig, anoddefgar, digyfaddawd, penderfynol a meddylwyr du a gwyn
- Gwrthod rheolaeth y gyfraith gan gadw at athroniaeth diben yn cyfiawnhau'r dull
- Anelu at wireddu eu nodau trwy unrhyw gyfrwng, gan gynnwys, pan fydd y cyfle yn cynnig ei hun, defnyddio trais gwleidyddol anferth yn erbyn gwrthwynebwyr'[14]

9. 'A Shared Future' Adroddiad td 21
10. https://www.whatdotheyknow.com/request/national_domestic_extremism_and#incoming-504973 ; Mae gan Gyfarwyddyd NOMS MAPPA 2012 ddiffiniad arall ar d 119
11. Berger, J.M. (2018) 'Extremism'
12. Dyfarniad wedi'i gymeradwyo 28/10/2016 td 27-29
13. Rowley, M. (Chwef 2018) Extremism and Terrorism: The need for a whole society response
14. Schmid, A. (2013) Radicalisation, De-Radicalisation, Counter-Radicalisation: A Conceptual Discussion and Literature Review

# BETH YDYM NI AM GAEL EI WYBOD?

## Beth yw Dealltwriaeth y Cyhoedd o Eithafiaeth?

**1. Beth mae pobl yn ei ddeall wrth 'eithafiaeth' ac 'eithafol'?**

a. I ba raddau y mae dealltwriaeth a rennir gan y cyhoedd o beth yw eithafiaeth?

b. Pa gytundeb sydd yna ar derfynau eithafiaeth?

Trwy gydol ein hymgysylltu, rydym wedi gweld bod pobl yn gallu disgrifio sut y mae gweithgareddau, agweddau ac ymddygiad eithafol yn edrych; a thrafod y niweidiau y maent yn credu y mae'r rhain yn eu hachosi.[15] Nid oes unrhyw ddiffiniad o eithafiaeth yn y gyfraith yn y Deyrnas Unedig. Mae nifer fawr o wahanol ddiffiniadau a ddefnyddir ar draws y llywodraeth a'r byd academaidd, sy'n dangos gwahaniaeth barn (gweler y blwch).

Ar gyfer ein Hastudiaeth, rydym am i'r rhai sy'n rhoi tystiolaeth ystyried y diffiniadau yr ydym wedi eu rhoi ond defnyddio eu hamgyffrediad eu hunain o ran beth y maent yn ei ystyried yn eithafiaeth.

Bydd ein Hastudiaeth yn edrych ar yr ystod eang o wahanol ganfyddiadau o ymddygiad a syniadau eithafol, a dynodi yr hyn sy'n gyffredin ac yn themâu cyson, yn ogystal â meysydd dadleuol. Byddwn yn cynnig consensws am derfynau agweddau ac ymddygiad eithafol.

## Graddfa eithafiaeth?

**2. Beth mae'r dangosyddion canlynol yn ei ddweud wrthym am raddfa eithafiaeth?**

a. Troseddau cysylltiedig ag eithafiaeth e.e. troseddau casineb

b. Digwyddiadau eithafol

c. Gwahanu mewn ardaloedd lleol

d. Digwyddiadau mewn mannau a reoleiddir, e.e. ysgolion, prifysgolion, elusennau

e. Maint a dylanwad grwpiau eithafol

f. Propaganda eithafol e.e. ar gyfryngau cymdeithasol a chyfryngau traddodiadol

g. Cysylltiad rhwng eithafiaeth a therfysgaeth

h. Agweddau sy'n arwydd o gydymdeimlad â syniadau neu ymddygiad eithafol

Mae dioddefwyr, academyddion, cynghorau lleol, grwpiau cymdeithas sifil a'r llywodraeth i gyd wedi disgrifio digwyddiadau wedi eu cymell gan eithafiaeth a ddigwyddodd yn y byd go iawn. Credai llawer ohonynt bod eithafiaeth yn mynd yn waeth. Yn ein harolwg YouGov dywedodd 73% o'r bobl a holwyd eu bod yn bryderus am 'lefelau cynyddol eithafiaeth yn y Deyrnas Unedig'.[16]

15. Atodiad A Crynodeb Ymgysylltu

16. Atodiad B, Data Polau Piniwn

Nid yw'r llenyddiaeth academaidd a adolygwyd gennym yn rhoi tystiolaeth fanwl am raddfa eithafiaeth.[17] Mae arbenigwyr wedi cynnig amrywiaeth o ddangosyddion o ran graddfa eithafiaeth, fel lefelau troseddau casineb, naill ai mewn ardaloedd lleol neu yn genedlaethol. Ond mae diffyg dealltwriaeth am y berthynas rhwng y dangosyddion dirprwyol hyn ag eithafiaeth. Yn ogystal â hyn, dim ond ar ei lefel gychwynnol y mae ein dealltwriaeth o'r berthynas rhwng ymddygiad eithafol ar-lein a heb fod ar-lein.[18]

Byddwn yn edrych ar y dangosyddion hyn a awgrymir i ddadansoddi a ydynt yn cynyddu ein dealltwriaeth o raddfa'r eithafiaeth mewn ardaloedd lleol ar draws Cymru a Lloegr.

## Tactegau ac amcanion eithafwyr

3. **Beth yw amcanion gwahanol ideolegau eithafol?**
4. **Pa dactegau mae eithafwyr a'u harweinwyr yn eu defnyddio i gyflawni eu hamcanion, gan gynnwys:**
   a. i gael eu barn yn y brif-ffrwd?
   b. i recriwtio pobl i'w hachos?
   c. i ymateb i'r rhai sy'n eu gwrthwynebu?

Er bod llawer o bobl yn defnyddio termau fel 'Islamaidd' neu 'Dde Eithaf', mae'r arbenigwyr yn cytuno y gellid gwneud mwy i ddangos y syniadau a'r ideoleg sydd tu ôl i'r termau yma, ac yn wir y rhai sy'n ymwneud â ffurfiau eraill o eithafiaeth.[19] Mae tactegau grwpiau a ystyrir yn gyffredinol yn eithafol fel Hizb ut-Tahrir,[20] a Britain First[21], neu sefydliadau gwaharddedig sy'n hyrwyddo golwg eithafol o'r byd fel National Action[22] ac Al-Muhajiroun[23], yn esblygu dros amser ac felly mae'n bwysig deall eu hamcanion craidd i frwydro yn erbyn eu gweithredoedd yn effeithiol.

Mae'r tactegau yr ydym wedi clywed amdanynt yn cynnwys creu amgylchedd bygythiol sy'n atal gweithredwyr rhag gwrthwynebu eithafwyr yn gyhoeddus; neu ddefnyddio dadleuon gwrth-hiliaeth neu dros ryddid i lefaru i gau'r drafodaeth i lawr. Credwn, trwy nodi yn glir sut y mae'r tactegau hyn yn cysylltu ag amcanion ac ideolegau sy'n sail iddynt, y byddwn yn rhoi hyder i bobl ymateb a thrafod yn fwy effeithiol.

17. Nid yw astudiaethau yn cynnwys tystiolaeth empirig am raddfa. Mae astudiaethau ar-lein yn ymdrin â'r mater yn fwy agos Goodwin, M.J. a Harris, G. (2013). Rallying intolerance in the valleys: Explaining support for the extreme right in Wales. British Politics, 8(4): 433-456.
18. Müller, K., Schwarz, C. (2017) Fanning the Flames of Hate: Social Media and Hate Crime
19. Schmid, A. (2013) Radicalisation, De-Radicalisation, Counter-Radicalisation: A Conceptual Discussion and Literature Review; Knight, S., Woodward, K. a Lancaster, G.L. (2017). Violent versus nonviolent actors: An empirical study of different types of extremism. Journal of Threat Assessment and Management, 4(4), p.230-248.
20. Dynodwyd bod Hizb-ut-Tahir yn eithafol gan y Blaid Geidwadol a'r Blaid Lafur, ac mae ymhlith chwe grŵp a ddynodwyd yn rhai 'hiliol neu ffasgaidd' ym Mholisi 'Dim Llwyfan' Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr. Mae'r Telegraph, y Mirror a'r Independent, ymhlith eraill, wedi galw Hizb-ut-Tahir yn eithafol.
21. Gwaharddwyd Britain First gan Facebook ym Mawrth 2018 am dorri'r rheolau ar gymell casineb yn barhaus, a dywedodd y cyn Ysgrifennydd Gwladol y llynedd: "Mae Britain First yn sefydliad eithafol sy'n ceisio rhannu cymunedau trwy ddefnyddio naratif llawn casineb sy'n taenu celwyddau ac yn procio tensiynau". Galwodd yr Independent, Metro, a Channel4, ymhlith eraill, Britain First yn eithafol.
22. Sy'n sefydliad terfysgol a waharddwyd.
23. Sy'n sefydliad terfysgol a waharddwyd.

# Niweidiau a Achosir gan Eithafiaeth

**5. Beth yw'r niweidiau sy'n cael eu hachosi gan ddigwyddiadau eithafol (fel y rhai y sonnir amdanynt yng nghwestiwn 2)?**

**6. Beth yw niweidiau eithafiaeth i fenywod, pobl ifanc, lleiafrifoedd a phobl sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth?**

**7. Beth yw'r niweidiau ehangach ar ein democratiaeth a'i sefydliadau?**

Rydym am roi darlun clir o'r niwed y mae eithafiaeth yn ei achosi ar draws y wlad, y ffurfiau gwahanol sydd arno a'r graddau y mae syniadau neu ymddygiad eithafol yn cyfrannu at y problemau yr ydym yn eu gweld.

Mae'r dystiolaeth academaidd bresennol yn gyfyngedig. Mae'n cyfeirio at gydlyniad cymunedol yn chwalu gan gynnwys llai o ymddiriedaeth mewn sefydliadau fel yr heddlu a chynghorau, allgauedd cymdeithasol ac ynysu fel niweidiau.[24] Mae cyfiawnhau trais hefyd yn un o'n prif bryderon. Mae pobl yn cael eu hysbrydoli gan bropaganda eithafol ar lawer ffurf, fel llofruddiaeth y Mwslim Ahmadi Asad Shah, llofruddiaeth Jo Cox AS gan Thomas Mair ac ymosodiad Darren Osbourne ar Fwslimiaid yn Finsbury Park.[25] Mae'r Llywodraeth yn nodi amrywiaeth o niweidiau yn y Strategaeth Gwrth-eithafiaeth.

Mae gan eithafiaeth ddioddefwyr eraill. Clywsom am gyplau cymysg eu ffydd yr amharwyd ar ddydd eu priodas gan grefyddwyr digymrodedd; pobl hoyw a orfodwyd i ddewis rhwng byw eu bywydau fel maent yn dymuno a'u ffydd, a dioddef sarhad o ganlyniad; a'r sarhad a wynebir gan bobl sy'n gwrthwynebu eithafiaeth yn effeithio ar eu lles emosiynol a seicolegol.[26] Dywed arbenigwyr wrthym fod y rhai sydd eisoes ar gyrion cymdeithas neu yn fregus, er enghraifft menywod Duon, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig, yn fwy tebygol o ddod yn ddioddefwyr eithafiaeth.[27]

Dywedodd cynghorau lleol wrthym am y modd y mae protestiadau eithafwyr yn effeithio ar ganol dinasoedd, ac yn arwain at niwed economaidd.[28] Gall eithafiaeth sy'n arwain at lai o integreiddio ac ymgysylltu dinesig gael effaith ar gyfalaf cymdeithasol ehangach a ffyniant economaidd.[29]

Rhaid i ni hefyd ddeall pa niweidiau y gall eithafwyr eu hachosi i'n democratiaeth, hawliau a sefydliadau'r wladwriaeth, wrth iddynt greu a manteisio ar y cynnydd mewn diffyg ymddiriedaeth.[30] Mae grwpiau hawliau dynol yn poeni am yr effaith y mae eithafwyr yn ei gael ar ryddid mynegiant, rhyddid crefyddol neu o ran cred ac egwyddorion cydraddoldeb ehangach.

24. Aly, A., Taylor, E. a Karnovsky, S. (2014). Moral disengagement and building resilience to violent extremism: An education intervention. Studies in Conflict & Terrorism, 37(4): 369-385.; Aldrich, D.P. (2014). First steps towards hearts and minds? USAID's countering violent extremism policies in Africa. Terrorism and Political Violence, 26(3): 523-546.

25. Y sylwadau wrth ddedfrydu Tanveer Ahmed; sylwadau dedfrydu Thomas Mair; sylwadau dedfrydu Darren Osborne

26. Atodiad A Crynodeb Ymgysylltu

27. Adolygiad Casey

28. Atodiad A Crynodeb Ymgysylltu

29. Adolygiad Casey

30. Mae'r polau yn cynnwys Eurobarometer (hidlo'r canlyniadau ar gyfer y Deyrnas Unedig) ac Edelman Trust Barometer, sy'n dangos lefelau hanesyddol o isel yn 2017, sy'n parhau yn 2018.

# Ein Hymateb Presennol

**8. Beth yw ymateb y llywodraeth a'r gymdeithas i eithafiaeth ar hyn o bryd, pa mor effeithiol yw'r ymateb a beth yw'r bylchau?**

**9. Sut gallwn ni gefnogi'r rhai sy'n brwydro yn erbyn eithafiaeth yn well?**

**10. Sut y gallai gweledigaeth gadarnhaol, gynhwysol i'n gwlad edrych?**

Ochr yn ochr â dealltwriaeth o'r problemau yr ydym yn eu hwynebu, rhaid i ni hefyd farnu a yw'r ymdrech sylweddol sy'n mynd i ymateb i eithafiaeth yn ddigonol ac effeithiol. Mae'r ymateb hwn yn cael ei yrru ar lefel genedlaethol gan Strategaeth Gwrth-eithafiaeth y Llywodraeth.

Mae'r llenyddiaeth academaidd a'r farn arbenigol ill dau yn cydnabod pwysigrwydd partneriaeth rhwng cymdeithas sifil a'r llywodraeth.[31] Ac eto mae rhai grwpiau cymunedol yn teimlo mai ychydig iawn o gydnabyddiaeth y maent yn ei gael ac mai dim ond mynediad at gyllid tymor byr yn unig sydd ganddynt i'w cefnogi. Dywedodd llawer o'r unigolion a grwpiau hyn wrthym am gost bersonol eu gwaith nad yw'n cael ei gydnabod, yn arbennig y rhai sy'n gweithio mewn cymunedau lleiafrifol.[32]

Roeddem yn falch o weld bod cynghorau lleol yn rhannu ymatebion blaengar ac arfer gorau trwy Grŵp Diddordeb Arbennig ar Frwydro yn Erbyn Eithafiaeth y Gymdeithas Llywodraeth Leol.[33] Canmolwyd y Cydlynwyr Cymunedol a ariennir gan y Swyddfa Gartref yn aml gan gymdeithas sifil a llywodraeth leol.

Ac eto, mae'r cyhoedd yn teimlo bod angen gwneud mwy – cred bron i hanner (49%) o'r rhai a gymerodd ran yn y pôl piniwn cyntaf bod angen gwneud 'llawer mwy' i daclo eithafiaeth, gyda 78% yn gyffredinol yn credu bod angen gwneud mwy. Rydym hefyd wedi gweld enghreifftiau o achlysuron pan nad yw llywodraeth leol a chenedlaethol yn ymyrryd pan allent wneud hynny.[34]

Rhannodd pobl bryderon hefyd am y ffordd y mae eithafiaeth yn cael ei drafod ar y cyfryngau yn ogystal â sgil effeithiau posibl polisïau cenedlaethol. Roedd rhai yn bryderus am effaith posibl y Mesur Gwrth-eithafiaeth a gynigiwyd o'r blaen ar ryddid mynegiant, barn a nodwyd yn gyhoeddus gan Sara Khan ar y pryd.[35] Rydym hefyd am ddysgu'r gwersi o bolisïau gwrth-derfysgaeth blaenorol a phresennol, gan gynnwys y rhai dan Prevent.[36]

---

31. Scrivens, R. a Perry, B. (2017). Resisting the right: Countering right-wing extremism in Canada. Canadian Journal of Criminology and Criminal Justice, 59(4): 534-558.
32. Atodiad A Crynodeb Ymgysylltu
33. Mae cynghorau Luton a Leeds yn cyd-gadeirio rhwydwaith awdurdod lleol ar draws Cymru a Lloegr i roi cefnogaeth, ac i ddatblygu a rhannu arfer da, ar frwydro yn erbyn eithafiaeth
34. Blog y Comisiwn ar Sheikh Hassan Haseeb ur Rehman; Adroddiad ar honiadau parthed Ysgolion Birmingham yn deillio o'r llythyr 'Trojan Horse' td13, 52, 95
35. Tystiolaeth i'r JCHR ar y Mesur Gwrth-eithafiaeth a Diogelu arfaethedig Cyfweliad Inspire Sara Khan
36. Ragazzi, F. (2016). Suspect community or suspect category? The impact of counter-terrorism as 'policed multiculturalism'. Journal of Ethnic and Migration Studies, 42(5): 724-741.
Saeed, T. a Johnson, D. (2016). Intelligence, global terrorism and higher education: Neutralising threats or alienating allies? British Journal of Educational Studies, 64(1): 37-51.
Abbas, T. ac Awan, I. (2015). Limits of UK counterterrorism policy and its implications for Islamophobia and far right extremism. International Journal for Crime, Justice and Social Democracy, 4(3):16-29.

Cydnabuwyd ers tro bod herio eithafiaeth yn gofyn am weledigaeth wahanol a chynhwysol. Gweledigaeth sy'n rhoi rhywbeth i bawb ohonom nad ydym yn hoffi eithafiaeth rhywbeth i ymladd drosto. Rydym am gael tystiolaeth am beth y gall y dewisiadau gwahanol cadarnhaol a chynhwysol hyn fod.

## Problemau Trawsbynciol

Wrth i ni chwilio am ateb i'r cwestiynau uchod, byddwn yn ystyried dau fater sy'n torri ar draws yr holl themâu yr ydym wedi eu dynodi. Sef:

- **Gyrwyr eithafiaeth**. Byddwn yn ystyried tystiolaeth ar fater gyrwyr. Ond mae anghytuno academaidd cyffredinol am yrwyr a'r hyn sy'n achosi eithafiaeth. Mae'n wir hefyd nad yw mwyafrif y bobl sy'n rhannu yr hyn a dybir sy'n yrwyr yn mynd ymlaen i gymryd rhan mewn gweithgareddau neu ymddygiad eithafol.
- **Rhyngweithio rhwng gofodau ar-lein a heb fod ar-lein**. Nid oes unrhyw amheuaeth bod y rhyngrwyd a'r technolegau cysylltiedig wedi newid ein byd, er gwell yn bennaf. Ond mae pryderon yn cael eu codi am ganlyniadau anfwriadol neu negyddol y technolegau hyn a sut y gallant fod yn effeithio ar eithafiaeth, neu yn cael eu defnyddio i daenu syniadau ac ymddygiad eithafol.[37]

37. Neumann, P.R. (2013) Options and strategies for countering online radicalization in the United States. Studies in Conflict & Terrorism, 36(6): 431-459.

# METHODOLEG

Nodir y fethodoleg fel canllaw o ran sut y byddwn yn casglu gwybodaeth o wahanol ffynonellau, a gadael i'r rhai sydd am gyfrannu at yr Astudiaeth ddeall y ffordd orau i wneud hynny. Rydym wedi dewis y dulliau hyn ar sail ymgynghoriad ag arbenigwyr, yr amserlen chwe mis a chyfyngiad gwariant y Comisiwn o £1.75 miliwn.

## Polau

**Polau Piniwn/Arolwg Agweddau** - Byddwn yn comisiynu arolwg hollol gynrychioliadol i fesur barn y cyhoedd am syniadau ac ymddygiad eithafol.

**Galwad am Dystiolaeth** - Byddwn yn lansio galwad cyhoeddus am dystiolaeth yn Hydref 2018. Byddwn yn annog tystiolaeth oddi wrth unigolion trwy ffurflen ar-lein ar niweidiau eithafiaeth a'i raddfa. Gellir rhoi'r dystiolaeth yn gyfrinachol.

**Siarad â Dioddefwyr** - Rydym am gael clywed gan ddioddefwyr am y niweidiau y maent wedi eu dioddef oherwydd eithafiaeth. Byddwn yn estyn allan at ddioddefwyr ac yn ceisio eu tystiolaeth trwy gyfarfodydd, digwyddiadau i grwpiau bychain a'r alwad am dystiolaeth. Byddwn yn sensitif i anghenion dioddefwyr wrth drafod eu profiadau a diogelu eu hunaniaeth.

**Ymgysylltu Cymunedol** - Byddwn yn cynnal digwyddiadau i'r cyhoedd mewn gwahanol ardaloedd o'r wlad i adael i ni fesur barn y cyhoedd ar niweidiau eithafiaeth a sut y gallwn gael gwell sgwrs gyhoeddus amdano.

## Llywodraeth Leol, Cymdeithas Sifil ac Academyddion

**Parhau i Ymgysylltu** – Bydd y Comisiwn a'r Comisiynydd Arweiniol yn parhau i ymgysylltu yn eang dros y chwe mis nesaf, gan adeiladu ar yr ymgysylltu llwyddiannus hyd yn hyn. Bydd hyn yn cynnwys trafodaethau wedi eu strwythuro mewn meysydd penodol, gan gynnwys hawliau menywod, hawliau dynol a phobl ifanc.

**Adolygiad o'r Llenyddiaeth sy'n Bodoli** – Byddwn yn parhau i adolygu'r llenyddiaeth sy'n bodoli am eithafiaeth, gan gynnwys llenyddiaeth academaidd, erthyglau, adroddiadau seiadau syniadau a data'r llywodraeth. Byddwn hefyd yn gwahodd tystiolaeth arbenigol trwy'r alwad gyhoeddus am dystiolaeth.

**Papurau Ymchwil** – Byddwn yn comisiynu papurau ymchwil ar nifer o themâu, gan gynnwys y Dde Eithaf ac Islamiaeth yn ogystal â dadansoddiad penodol i gefnogi cwestiynau eraill yn ôl y gofyn.

**Siarad â'r Rhai sy'n Brwydro yn Erbyn Eithafiaeth** – Byddwn yn ceisio arbenigedd gwrth-eithafwyr ar niweidiau eithafiaeth a'n hymateb iddo trwy gyfarfodydd, digwyddiadau grwpiau bach ac arolwg. Rydym am ddeall sut y gall gwrth-eithafiaeth gael ei gefnogi yn well, a sut y gallai weledigaeth gadarnhaol, gynhwysol edrych.

## Llywodraeth

**Rhannu Gwybodaeth dan Siarter y Comisiwn** – Dan Siarter y Comisiwn, ymrwymodd y Llywodraeth i rannu gwybodaeth resymol, berthnasol pan fydd diogelwch yn caniatáu. Byddwn yn ysgrifennu at lywodraeth ganolog yn ogystal â chyrff rheoleiddiol. Bydd y comisiwn yn cadw at ganllawiau diogelwch ac ni fydd yn cyhoeddi unrhyw wybodaeth heb gytundeb perchennog y data.

Cysylltu â ni
E-bost: info@extremismcommission.independent.gov.uk
Twitter: @CommissionCE
Blog: extremismcommission.blog.gov.uk
Dyluniwyd gan Design102

design102 Find out more at design102.co.uk
Design that makes a difference